# COFNODION Y CYFARFOD

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Older People's Commissioner for Wales

# Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

Dydd Mawrth 21 Hydref 2025 am 2.15pm
Microsoft Teams

## Yn bresennol

### Aelodau

- Claire Bevan (Cadeirydd)
- Julia Evans
- Chris Knight
- David Powell
- Sian Richards

### Archwilio Mewnol

- Steen Gourlay, TIAA
- Elan Parry, TIAA

### Archwilio Allanol

- Jeremy Saunders, Archwilio Cymru

### Uwch Dîm Arwain

- Rhian Bowen-Davies - Comisiynydd
- Kelly Davies – Prif Swyddog Gweithredu
- Nia Halton – Pennaeth Cyllid (eitemau agenda 5-9 yn unig)
- Rachel Bowen – Cyfarwyddwr Polisi (eitem agenda 11 yn unig)
- Ruth Thomas – Uwch Gynorthwyydd Gweithredol (Ysgrifenyddiaeth)

### Ymddiheuriadau

Ni ddaeth unrhyw ymddiheuriadau i law.

## Camau gweithredu i'w cyflawni

| Dyddiad | Manylion | Enw | Dyddiad Cwblhau |
|---|---|---|---|
| 24 Gorffennaf 2025 | Rhannu gwybodaeth / gwersi pellach a ddysgwyd yn dilyn yr ymgais ar ymosodiad seiber ar seilwaith TG Comisiynydd arall. | TIAA | Tachwedd 2025 |
| 24 Gorffennaf 2025 | Dosbarthu copi o adroddiad Archwilio Cymru ar ofal heb ei drefnu. | Archwilio Cymru | Pan fydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi |
| 21 Hydref 2025 | Dosbarthu'r ddogfen Mapio Sicrwydd | Prif Swyddog Gweithredu | Tachwedd 2025 |
| 21 Hydref 2025 | Cynnwys papur cwmpasu ar gyfer y taenlenni Cynllun Gwaith | Cyfarwyddwr Polisi | Ionawr 2026 |

## Eitem agenda 1: Cyflwyniadau ac ymddiheuriadau

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, gan nodi mai dyma oedd y cyfarfod wyneb yn wyneb olaf i Julia Evans fel Aelod o'r Pwyllgor. Diolchodd y Cadeirydd i Julia am ei chyfraniad i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg dros y chwe mlynedd diwethaf.

### i) Cofrestr buddiannau

Dim byd i'w nodi.

### ii) Gweithredoedd Tendr Sengl i'w Datgan

Dim byd i'w nodi.

### iii) Cyngor a ddarparwyd i'r Comisiynydd neu ei staff ers y cyfarfod diwethaf

Cadarnhaodd y Comisiynydd na ddarparwyd unrhyw gyngor ers y cyfarfod diwethaf.

## Eitem agenda 2i: Adolygiad o'r cofnodion a'r materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf ar 24 Gorffennaf 2025 (Papur 2)

Cadarnhawyd y cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Gorffennaf 2025. Darparwyd y diweddariadau a ganlyn:

| Dyddiad | Manylion | Enw | Dyddiad Cwblhau | Diweddariad |
|---|---|---|---|---|
| 24 Gorffennaf 2025 | Darparu amserlen ar gyfer gweithredu'r porth digidol newydd ar gyfer rhannu gwybodaeth. | TIAA | Hydref 2025 | Cynghorodd Steen Gourlay, TIAA, y Pwyllgor nad oedd dyddiad lansio'r porth digidol newydd ar gael eto a chadarnhaodd y byddai |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | diweddariadau cynnydd yn cael eu darparu maes o law. |
| 24 Gorffennaf 2025 | Rhannu gwybodaeth / gwersi pellach a ddysgwyd yn dilyn yr ymgais ar ymosodiad seiber ar seilwaith TG Comisiynydd arall. | TIAA | Hydref 2025 | Hysbysodd TIAA y Pwyllgor y byddai diweddariad yn cael ei rannu y tu hwnt i'r cyfarfod, yn dilyn cwblhau'r adroddiad perthnasol. |
| 24 Gorffennaf 2025 | Diweddaru'r adroddiad Crynodeb o Sicrwydd Rheolaethau Mewnol gyda rhestr lawn o'r archwiliadau sy'n cael eu cynnal yn 2025/26. | TIAA | Hydref 2025 | Gweler Atodiad A, Papur 3i. Cam gweithredu wedi'i gwblhau. |
| 24 Gorffennaf 2025 | Dosbarthu copi o adroddiad Archwilio Cymru ar ofal heb ei drefnu. | Archwilio Cymru | Pan fydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi | Nid yw'r adroddiad wedi'i gyhoeddi eto. Cam gweithredu ar y gweill. |
| 24 Gorffennaf 2025 | Adolygu dull adrodd darparu'r rhaglen waith. | Cyfarwyddwr Polisi | Hydref 2025 | Y fformat adrodd wedi'i adolygu – ewch i Bapur 11. Cam gweithredu wedi'i gwblhau. |
| 24 Gorffennaf 2025 | Diweddaru'r Strategaeth Rheoli Risg i gynnwys diffiniadau o'r awydd am risg. | Prif Swyddog Gweithredu | Gorffennaf 2025 | Polisi wedi'i ddiweddaru. Cam gweithredu wedi'i gwblhau. |

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cadeirydd, cadarnhaodd y Prif Swyddog Gweithredu fod yr ymarfer mapio sicrwydd wedi'i gynnal. Cytunwyd y byddai'r ddogfen berthnasol yn cael ei rhannu y tu hwnt i'r cyfarfod.

Cadarnhawyd y bydd y Prif Swyddog Gweithredu bellach yn gyfrifol am y Polisi Caffael. Mae cyngor cyfreithiol yn cael ei geisio ynghylch goblygiadau'r Ddeddf Caffael (2023), a bydd y polisi Archebu Nwyddau a Gwasanaethau yn cael ei ddiweddaru os oes angen. Cyfeiriwyd yr aelodau i fideo defnyddiol ar wefan TIAA sy'n darparu trosolwg o'r Ddeddf.

## ii) Adolygiad o'r cofnodion o'r Cyfarfod Eithriadol ar 11 Medi 2025

Cadarnhawyd y cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Medi 2025.

## Eitem agenda 3i: Archwiliad Mewnol - Adroddiad Diweddaru ar y Crynodeb o Sicrwydd Rheolaethau Mewnol

Cyflwynodd Elan Parry Bapur 3i, a rhoddodd sicrwydd i'r Pwyllgor fod y Cynllun Blynyddol ar y trywydd cywir, fel y nodir yn Atodiad A.

Bydd yr archwiliad o'r Rheolaethau Ariannol Allweddol yn cael ei gynnal ym mis Chwefror 2026. Nid oedd unrhyw faterion i'w hadrodd.
Amlygodd Chris Knight y 'drosedd Methiant i Atal Twyll' a nodwyd yn adroddiad TIAA. Cadarnhaodd y Prif Swyddog Gweithredu nad oedd angen unrhyw gamau gweithredu oherwydd maint a chyllideb y sefydliad. Cadarnhaodd TIAA fod nifer o fesurau arferion da wedi'u nodi yn y Ddeddf ond nad oedd unrhyw ofynion ar gyfer Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru.

Diolchodd y Cadeirydd i TIAA am y diweddariad.

## ii) Adolygiad Sicrwydd o Reoli Absenoldeb a Llesiant Staff (Papur 3ii)

Cadarnhaodd Elan Parry fod 'sicrwydd sylweddol' wedi ei nodi yn yr archwiliad ar Reoli Absenoldeb a Llesiant Staff, ac nad oedd unrhyw argymhellion i gymryd camau.

Gwnaeth y Cadeirydd longyfarch Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ar y sicrwydd sylweddol a gafwyd.

Gofynnodd David Powell sut y byddai'r archwiliad yn cael ei ddefnyddio yng nghyd-destun iechyd a llesiant staff. Nododd y Prif Swyddog Gweithredu fod canlyniad yr archwiliad yn alinio â chanlyniadau'r arolwg staff diweddar ond croesawodd y sicrwydd allanol.

Yn dilyn y cwestiwn gan y Cadeirydd, hysbysodd y Prif Swyddog Gweithredu y Pwyllgor fod y gwaith o hyfforddi a mentora rheolwyr llinell yn broses barhaus. Mae hyfforddiant allanol yn cael ei ystyried hefyd.

Hysbyswyd y Pwyllgor, er nad oedd ymgyrch weithredol i annog staff i gael y brechiad rhag y ffliw, y bydd y wybodaeth honno'n cael ei chyhoeddi ar y sianel Teams iechyd a llesiant.

Gwnaeth y Cadeirydd longyfarch y Comisiynydd ar ran y Pwyllgor am y sicrwydd sylweddol a gafwyd ar yr archwiliad Rheoli Absenoldeb a Llesiant Staff.

## iii) Rheoli Risg – Rheolaethau Lliniaru (Papur 3iii)

Cyflwynodd TIAA Bapur 3ii, gan nodi'r canlyniad sicrwydd sylweddol ar gyfer yr archwiliad, a chyfleu hyder yn effeithiolrwydd y prosesau rheoli risg parhaus.

Myfyriodd y Comisiynydd yn gadarnhaol ar y broses archwilio a'r trafodaethau a gynhaliwyd.

Croesawodd y Cadeirydd y sicrwydd a roddwyd a diolchodd i'r staff a oedd wedi cyfrannu at yr archwiliad.

## Eitem agenda 4: Diweddariad Archwilio Cymru

Cyflwynodd Jeremy Saunders bapur 4 ar ran Archwilio Cymru a hysbysodd y Pwyllgor fod y Cyfrifon wedi'u gosod gerbron y Senedd ym mis Medi.

Hysbyswyd y Pwyllgor bod tymor presennol yr Archwilydd Cyffredinol yn dod i ben ym mis Gorffennaf ac mae'r swydd yn cael ei hysbysebu ar hyn o bryd.

Cadarnhawyd bod yr ymgynghoriad ar Ffioedd wedi cau ac y byddai'n cael ei osod gerbron y Pwyllgor Cyllid yn y Senedd yn y misoedd i ddod. Adroddodd Jeremy Saunders fod cynnydd o 5.5% mewn ffioedd yn cael ei ystyried.

Yn dilyn cyhoeddiad diweddar Archwilio Cymru, Iechyd a Gofal Digidol Cymru - *Adolygiad o Drefniadau Ymgysylltu â Rhanddeiliaid*, cadarnhaodd y Prif Swyddog Gweithredu na ofynnwyd i'r Comisiynydd gyfrannu at yr adolygiad.

Diolchodd y Cadeirydd i Archwilio Cymru am y diweddariad.

## Eitem agenda 5: Asesu Perfformiad Archwilwyr Allanol (Papur 5)

(Gadawodd Archwilio Cymru a TIAA y cyfarfod tra bod Papur 5 yn cael ei gyflwyno a'i drafod).

Cyflwynodd y Prif Swyddog Gweithredu yr adolygiad o'r Archwiliwyr Allanol ar gyfer 2025 a luniwyd gan y cyn Bennaeth Cyllid ac Adnoddau. Crynhodd y papur y berthynas weithio gadarnhaol a hyblyg ag Archwilio Cymru.

Nododd y Pwyllgor y sicrwydd a roddwyd o'r adroddiad a chytunodd fod Archwilio Cymru'n darparu gwasanaeth da a bod cyfraniad cadarnhaol gan archwilwyr i gyfarfodydd y Pwyllgor.

Dychwelodd cynrychiolwyr Archwilio Cymru a TIAA i'r cyfarfod a chynghorodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor yn ddiolchgar am waith Archwilio Cymru ac yn gwerthfawrogi'r profiad, yr hyblygrwydd a'r ymatebolrwydd a ddarparwyd gan yr Archwilwyr Allanol.

## Eitem agenda 6: Adroddiad Cyllid

Croesawodd y Cadeirydd y Pennaeth Cyllid i'r cyfarfod i gyflwyno'r Adroddiad Cyllid (Papur 6).

Amlinellodd y Pennaeth Cyllid y pwyntiau allweddol yn ystod Chwarter 2:

- Gwobrwywyd cynnydd o 3.75% ar gyfer costau byw ym mis Medi (wedi'i ôl-ddyddio i fis Ebrill).
- Mae disgwyl i'r gwariant ar y rhaglen waith gynyddu yn Ch3 a Ch4.
- Nid yw'r cyllid ychwanegol ar gyfer y cynnydd mewn cyfraniadau Yswiriant Gwladol a thaliadau costau byw wedi'i gadarnhau eto gan Lywodraeth Cymru.

Hysbysodd y Prif Swyddog Gweithredu y Pwyllgor y byddai'r papurau Cyllid yn cael eu dosbarthu'n rhai 'Cyfrinachol' fel rhan o bolisi rheoli data a diogelwch gwybodaeth y sefydliad.

Cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid y byddai'r safbwynt ar y Cynllun Cyllid Tymor Canolig yn cael ei adolygu a'i graffu'n rheolaidd.

Cadarnhaodd y Comisiynydd fod cyfarfodydd cynllunio manwl wedi'u cynnal ynghylch gwariant cyllideb y rhaglen waith.

Cadarnhaodd y Prif Swyddog Gweithredu nad oedd cynlluniau ar unwaith i gaffael system rheoli achosion newydd. Gwnaed newidiadau i'r system bresennol i wella ymarferoldeb adrodd ac mae ymarfer i nodi gofynion sefydliadol yn mynd rhagddo. Rhagwelir y gellid gwneud achos dros gyllid cyfalaf i Lywodraeth Cymru yn 2026-27.

Cydnabu'r Pwyllgor yr adroddiad ac amlygwyd y risgiau cysylltiedig.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Pennaeth Cyllid am y sicrwydd a roddodd i'r Pwyllgor ynghylch y gwaith rheoli cyllid sydd ar waith.

## Eitem agenda 7: Polisïau: Gwrth-dwyll, Llwgrwobrwyo a Gwyngalchu Arian

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid y polisi wedi'i ddiweddaru i'w gymeradwyo, gan nodi'r mân newidiadau a nodwyd yn yr adroddiad.

Hysbyswyd y Pwyllgor y byddai'r Pennaeth Cyllid yn mynychu cyfarfodydd rheolaidd â chyfoedion mewn cyrff sector cyhoeddus i gasglu arferion gorau ac i rannu'r dysgu ledled y sector.

Cymeradwyodd y Pwyllgor y polisi wedi'i ddiweddaru.

## Eitem agenda 8: Treuliau'r Comisiynydd

Nododd y Pwyllgor yr eitemau a restrwyd yn y Gofrestr Dreuliau.

## Eitem agenda 9: Y Gofrestr Rhoddion a Lletygarwch

Nododd y Pwyllgor yr eitemau a restrwyd yn y Gofrestr Rhoddion a Lletygarwch.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Pennaeth Cyllid am y diweddariadau. (Gadawodd y Pennaeth Cyllid y cyfarfod ar ôl yr eitem agenda hon.)

## Eitem agenda 10: Y Gofrestr Risg Strategol

### i) Y Gofrestr Risg

### ii) Y papur cwmpasu risg

Cyflwynodd y Prif Swyddog Gweithredu'r Gofrestr Risg Strategol, gan amlygu'r gostyngiad mewn risg sy'n ymwneud â staffio a chapasiti yn dilyn penodi dau aelod o staff.

Hysbyswyd y Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru'n bwriadu cyhoeddi cyllideb 2026-27 ym mis Tachwedd, yn sylweddol gynharach nag arfer. Byddai Risg 12 yn cael ei adolygu yn dilyn y cyhoeddiad.

Mae Risg 7 wedi'i gynyddu oherwydd yr amserlennu ar gyfer y pwyntiau yn y rhaglen waith i'w cyflawni, ond rhagwelwyd y byddai hyn yn gostwng y mis nesaf.

Trafodwyd yr etholiad Senedd sydd ar ddod a chydnabu'r Pwyllgor y tebygolrwydd y byddai cyfnod o ansicrwydd yn dilyn etholiadau Senedd 2026.

Croesawodd y Pwyllgor y sicrwydd a ddarparwyd gan yr adroddiad, a diolchodd y Cadeirydd i'r Prif Swyddog Gweithredu am y papurau.

## Eitem agenda 11: Diweddariad ar y cynllun gwaith

Croesawodd y Cadeirydd y Cyfarwyddwr Polisi i'r cyfarfod ar gyfer eitem agenda 11. Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Polisi y diweddariad i'r cynllun gwaith a rhoddodd drosolwg o'r fformat diwygiedig.

Hysbyswyd y Pwyllgor:

- y byddai'r modiwl rhagfarn oed, ar y cyd â'r Brifysgol Agored, yn cael ei lansio ym mis Mawrth 2026.
- Bod amrywiaeth o waith sy'n dod i mewn, nad yw wedi'i gynnwys yn y rhaglen waith a gyhoeddwyd, wedi'i gwblhau ac mae'n parhau i gael effaith, gan gynnwys cyfraniadau i Bwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Senedd ar y Bil Marw â Chymorth.

- Bod Wrecsam yn ddiweddar wedi derbyn statws Rhwydwaith Byd-eang Sefydliad Iechyd y Byd o Gymunedau a Dinasoedd Oed-gyfeillgar, gan arwain at y ffaith bod 50% o'r holl gymunedau yng Nghymru yn aelodau.
- Y byddai adolygiad llenyddol ar yr adroddiad rhagfarn oed digidol yn cael ei gyhoeddi'r wythnos nesaf.
- Bod papur sy'n crynhoi blaenoriaethau'r Comisiynydd ar gyfer Llywodraeth Cymru wedi'i gyhoeddi a'i rannu â'r pleidiau gwleidyddol.

Croesawodd y Pwyllgor y fformat newydd. Fodd bynnag, awgrymwyd papur cwmpasu, sy'n debyg i'r ddogfen drosolwg ar y Gofrestr Risg. Cam gweithredu: Cyfarwyddwr Polisi.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cyfarwyddwr Polisi am y diweddariad cynhwysfawr a'r sicrwydd a ddarparwyd gan y diweddariad i'r rhaglen waith.

## Eitem agenda 12: Adroddiad Llywodraethiant Chwarterol:

Cyflwynodd y Prif Swyddog Gweithredu uchafbwyntiau'r adroddiadau chwarterol.

### i) Adroddiad Llywodraethiant

Cofnodwyd un damwain bach yn ystod Chwarter 2, a daeth dau gais Rhyddid Gwybodaeth i law.

### ii) Adroddiad Iechyd Sefydliadol

- Mae cyfnod trosglwyddo wedi digwydd â'r Pennaeth Cyllid newydd cyn ymadawiad y Pennaeth Cyllid ac Adnoddau.
- Nid oedd unrhyw bryderon ynghylch gwyliau blynyddol.
- Roedd absenoldeb oherwydd salwch yn Ch2 yn isel iawn.
- Cynigwyd nifer o gyfleoedd datblygu a dysgu i'r staff ac Aelodau'r Pwyllgor yn y misoedd diwethaf gan gynnwys sesiwn ar niwrogynhwysiant, a gafodd ei dderbyn yn dda iawn.
- Byddai arolwg staff yn cael ei gynnal yn ystod 2026-27.

### iii) Adroddiad Cyfathrebu

Cyflwynodd y Prif Swyddog Gweithredu yr adroddiad, a ysgrifennwyd gan y Pennaeth Cyfathrebu, fel trosolwg o Chwarter 2.

Gwnaeth yr adroddiad arddangos cyrhaeddiad y Comisiynydd a'r cysylltiad â gweithgaredd ymgysylltu a bydd ymholiadau Cyngor a Chymorth yn cael eu harchwilio.

Rhoddodd y Prif Swyddog Gweithredu ddiweddariad i'r Pwyllgor ynghylch y ffaith bod Strategaeth Ymgysylltu Gwleidyddol ddiwygiedig wedi'i chyflwyno gan y Cyfarwyddwr Polisi yng nghyfarfod yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth ym mis Hydref. Roedd Strategaeth Ymgysylltu'r Comisiynydd yn cael ei datblygu i sicrhau dull gweithredu cydgysylltiedig, strategol i'r gweithgaredd.

### iv) Cerdyn Sgorio Cytbwys

Nododd y Pwyllgor y Cerdyn Sgorio Cytbwys.
Yn dilyn cwestiwn gan y Cadeirydd, cadarnhaodd y Prif Swyddog Gweithredu y bydd y data'n cael eu defnyddio i dargedu gweithgaredd ymgysylltu mewn meysydd lle y mae nifer is o ymholiadau Cyngor a Chymorth yn cael eu derbyn. Bydd ymgyrch hysbysebu wedi'i thargedu'n cefnogi hyn.

Pwysleisiodd y Prif Swyddog Gweithredu ymatebolrwydd y sefydliad i addasu i'r cynllun gwaith a blaenoriaethau'r Comisiynydd i batrymau a thueddiadau a welir mewn ymgynghoriadau i'r Gwasanaeth Cyngor a Chymorth. Bydd enghraifft yn cael ei rhannu a'i thrafod yn fanylach yn Sesiwn Ddatblygu'r Pwyllgor sydd ar ddod.

Cadarnhaodd y Cadeirydd fod yr adroddiadau Llywodraethiant Chwarterol yn rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor yn y maes hwn.

## Eitem agenda 13: Adroddiad Gwydnwch Seiber

Rhoddodd y Prif Swyddog Gweithredu ddiweddariad i'r Pwyllgor ynghylch yr archwiliad seiber annibynnol diweddar.

Oherwydd y risgiau diogelwch cysylltiedig, nid yw'r eitem agenda hon wedi'i chofnodi.

## Eitem agenda 14: Unrhyw Fusnes Arall

Nid oedd unrhyw eitemau ychwanegol o fusnes i'w trafod.

## Eitem agenda 15: Adolygiad o'r cyfarfod, gan gynnwys trafodaeth ar eitemau agenda yn y dyfodol, dyddiau datblygu a chyfarfodydd ffocws

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am y trafodaethau defnyddiol a diddorol a chyfleodd werthfawrogiad i staff y Comisiynydd am ansawdd a phrydlondeb y papurau Pwyllgor.

Diolchodd y Cadeirydd i Julia am ei hymrwymiad a'i chefnogaeth dros y blynyddoedd a dymunodd yn dda iddi i'r dyfodol.

**Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf: Cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar-lein Dydd Iau 27 Ionawr am 1.30pm.**